**Cais am Bris ar gyfer creu Ap 'Dysgu Gyda Cyw'**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi: | 18 Gorffennaf 2019 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: | 12:00 canol dydd, 22 Awst 2019 |

**GWYBODAETH ALLWEDDOL**

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r Gwasanaethau** | Mae S4C yn edrych i apwyntio cwmni i ddatblygu a chyfleu ap yn yr iaith Gymraeg gyda'r teitl 'Dysgu Gyda Cyw'.<br><br>Mae brand 'Cyw' S4C yn adnabyddus i blant Cymru ac mae apiau dysgu fel *Cyfri Gyda Cyw* a *Cyw a'r Wyddor* wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol. Ond nawr rydym yn edrych am gwmni all gynhyrchu ap newydd fydd yn cymryd lle yr apiau hyn ac yn cynnwys o leiaf pedwar o gêmau addysg i blant bach mewn ffordd wreiddiol, lliwgar a hwyl a fydd yn eu denu i ddod nôl at yr ap dro ar ôl tro. |
| **Cyllideb a Amcangyfrifir** | Mae S4C yn amcangyfrif y gellir darparu'r gwasanaethau am uchafswm cost o £40,000. Croesawir ceisiadau sy'n cynnig ffigwr is. |
| **Gofynion Golygyddol** | Mae S4C yn awyddus i'r ap fod ar ffurf modylol (*modular*) (yn debyg i ap chwarae *Byd Cyw)* er mwyn galluogi S4C i ddiweddaru'r gêmau heb newid yr ap craidd. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod modd ychwanegu gêmau newydd dros gyfnod o amser i'r ap er mwyn cynnal diddordeb plant a rhieni. Dylai'r fframwaith modylol alluogi S4C i gomisiynu ac ychwanegu gêmau newydd at yr ap gan ddarparwyr eraill ac o dan frandiau eraill S4C ar wahân i 'Cyw'.<br><br>Bydd disgwyl i'r gêmau fod wedi eu creu gyda sylfaen gref mewn addysg blynyddoedd cynnar, ac yn addas ar gyfer oedran 2-6. Bydd disgwyl i'r cwmni allu dangos bod ganddynt arbenigedd neu eu bod am gydweithio gydag arbenigwyr addysg blynyddoedd cynnar. Dylid nodi fodd bynnag bydd y pwyslais ar wneud y profiad yn llawn hwyl i'r defnyddiwr. Nid oes gofyniad penodol am yr uchafswm o gemau, ond bydd creu ap cyfoethog y gall plant droi ato dro ar ôl tro yn bwysig, gan sicrhau y bydd yr ap yn cynnwys o leiaf pedwar gêm.<br><br>Dylai ymgeiswyr ddarparu cynllun cyhoeddi ar hyd cyfnod o flwyddyn ar gyfer yr ap, gan nodi os oes bwriad rhyddhau'r gemau i gyd ar yr un pryd neu ar adegau gwahanol.<br><br>Mae'n bosib y bydd S4C yn datblygu'r ap llwyddiannus ymhellach er enghraifft trwy leoleiddio yr ap i ieithoedd eraill. Dylai ymgeiswyr felly sicrhau y caiff yr ap ei greu mewn modd fyddai'n galluogi lleoleiddio i ieithoedd eraill yn hawdd. Wrth gynllunio hyn dylai ymgeiswyr ystyried yr angen posib i'r ap fedru dygymod â gwyddorau gwahanol a nodau arbennig. Noder bod costau unrhyw addasiadau graffeg ayyb ar gyfer lleoleiddiad y tu allan i gyllideb y cais am bris hwn.<br><br>Bydd angen i'r ap gydymffurfio gyda Chanllawiau Brand Cyw (sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C yma).<br><br>**Cysylltiadau i apiau a gwasanaethau presennol Cyw**<br><br>Gwefan Cyw: https://cyw.cymru/ |

| | |
|---|---|
| | Ap Byd Cyw:<br>• iOS https://apps.apple.com/gb/app/byd-cyw/id1208535944<br>• Android https://play.google.com/store/apps/details?id=com.thud.bydcyw&hl=en_IE<br>• **Kindle Fire** https://www.amazon.co.uk/S4C-Byd-Cyw/dp/B07F75Q2DB |
| **Gofynion Technegol** | Bydd angen i'r ap fod yn addas ar gyfer llwyfannau iOS ac Android.<br><br>Bydd angen i fframwaith feddalwedd yr ap alluogi ychwanegu a thynnu gêmau yn effeithiol.<br><br>Bydd angen i'r ap fod yn barod ar gyfer lleoleiddio i ieithoedd eraill.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth priodol i faint yr ap o ran cof dyfeisiadau, gan geisio sicrhau'r maint lleiaf posib.<br><br>Ni ddylai'r ap gasglu data defnyddwyr oni bai am fanylion defnydd sylfaenol dienw trwy, er enghraifft Google Analytics, er mwyn gallu monitro a deall defnydd gemau penodol. |
| **Gofynion Cyfleu** | Bydd angen sicrhau bod pob agwedd o'r ap (gan gynnwys pob gêm) yn barod i'w lansio erbyn Chwefror 2020. |
| **Gofynion Ychwanegol** | Bydd disgwyl i'r darparwr llwyddiannus:<br>• Aseinio'r hawlfraint a'r holl hawliau eraill yn yr ap, unrhyw feddalwedd a ddatblygir yn arbennig ar gyfer ei ddefnyddio yn yr ap a chynnyrch gwasanaethau'r cwmni i S4C;<br>• Gynnal a chadw'r ap am gyfnod o 2 flynedd;<br>• Gadw mewn cysylltiad rheolaidd ac effeithiol gydag aelodau enwebedig o staff S4C;<br>• Reoli pob agwedd o gynllunio'r gwasanaeth;<br>• Cydymffurfio â chyfreithiau, codau ymarfer a chanllawiau perthnasol (gweler y Nodiadau Cyfreithiol); ac<br>• Ymrwymo staff addas i weithio ar bob agwedd o'r cytundeb, gan gynnwys staff iaith Gymraeg. |
| **Gwybodaeth i'w ddarparu i S4C fel rhan o'ch ymateb** | Darparwch ddogfen gais gyda dyfynbris llawn ar gyfer darparu'r gwasanaethau uchod yn unol â'r manylion a osodir yn y ddogfen hon. |

## 1. Y BROSES

Gofynnir i chi ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Cais am Bris hwn drwy ebost at **tendr.plant@s4c.cymru** ar neu cyn **12:00 canol dydd, dydd Iau 22 Awst 2019**.

Gallwch ddarparu eich ymateb yn Gymraeg neu Saesneg ac ni fydd ymateb a ddarperir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol nac ymateb a ddarperir yn Saesneg.

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffygion unrhyw system dosbarthu, neu am unrhyw ymatebion coll, hwyr neu ddiffygiol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich ymatebion (ac unrhyw atodiadau) wedi'u paratoi mewn da bryd (gan ystyried absenoldebau staff neu fethiannau technegol) a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn digon o amser cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion fel y nodir uchod.

Noder mai 20Mb yw maint yr e-bost mwyaf y gall S4C dderbyn a'r fformatau ffeil derbyniol yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r fformatau ffeil hyn yn dderbyniol fel ffeiliau Zip. Dylech fod yn ymwybodol ei fod yn bosib i'ch CGRh (Cyflenwr Gwasanaeth Rhyngrwyd) osod terfynau llai ar faint cynnyrch eich e-bost ac fe'ch cynghorir i gadarnhau cyfyngiadau ynglyn â maint gyda'ch CGRh neu eich Adran Technoleg Gwybodaeth mewn da bryd cyn y dyddiad cau. Mae croeso i ymgeiswyr gynnwys o fewn yr ebost ddolen at eu hymatebion trwy wasanaeth megis WeTransfer.

Ni fydd prawf eich bod wedi anfon yn cael ei gyfri fel prawf o gyfleu ac fe'ch cynghorir i ofyn am dderbynneb cydnabyddiaeth mewn e-bost ar wahân.

Efallai y bydd S4C yn gofyn i ymgeiswyr fynychu cyfweliadau yng Nghaerfyrddin er mwyn esbonio manylion a nodir yn y ddogfen gais ac er mwyn gwneud cyflwyniad. Gellir cynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nodwch eich dewis iaith ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol os gwelwch yn dda. Os byddwch yn dewis cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg os oes angen.

Bwriadwn eich hysbysu o ganlyniadau'r broses hon ar ddydd Llun 2 Medi 2019.

## 2. CEISIADAU AM WYBODAETH BELLACH

Os ydych angen gwybodaeth bellach ynglŷn â'r broses hon, cysylltwch ag S4C drwy ebostio **cwestiwn.tendr@s4c.cymru** Er mwyn tegwch a thryloywder noder y bydd ymateb S4C i unrhyw gais ar gyfer gwybodaeth bellach ac/neu gyfarwyddiadau mewn perthynas â'r broses hon yn cael ei ddatgelu i bob un o'r darpar gyflenwyr.

Ni ddylid canfasio neu geisio cael unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r broses hon o unrhyw swyddog, gweithiwr, asiant neu ymgynghorydd i S4C.

Fe'ch anogir i adnabod unrhyw wybodaeth bellach ac/neu gyfarwyddiadau y mae'n debygol y bydd angen arnoch mewn perthynas â'r broses hon mor gynnar ag sy'n bosib. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am wybodaeth bellach ac/neu gyfarwyddiadau yw **12:00 canol dydd, dydd Iau 8 Awst 2019.** Ni ystyrir unrhyw geisiadau a dderbynnir wedi'r dyddiad hon. Bydd S4C yn ymdrechu i ddelio yn brydlon gyda'r holl geisiadau a dderbynnir cyn y dyddiad cau.

## 3. GWYBODAETH OFYNNOL

### 3.1 Gwybodaeth i'w ddarparu

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol yn Atodiad 1 a darparu dogfen gais yn cynnwys y wybodaeth ganlynol er mwyn dangos yn fanwl sut y caiff gofynion S4C eu diwallu:

- Eglurhad o elfennau golygyddol yr ap gan gynnwys:
  - esboniad o'r ap craidd a'r dull o lywio rhwng gemau; ac
  - esboniad o'r gemau a gynigir, eu dull chwarae (*gameplay*), a'u pwrpas addysgol;
- Disgrifiad o strwythur technegol yr ap gan gynnwys:
  - disgrifiad o'r agwedd fodylol a'r system feddalwedd a gynigir fel strwythur i hyn;
  - esboniad o'r gallu i leoleiddio i ieithoedd eraill; a
  - maint yr ap;
- Amserlen ar gyfer cyfleu'r ap a chynllun cyhoeddi'r ap;
- Ffi ar gyfer creu a chynnal yr ap (gweler adran 3.2 isod);
- Disgrifiad o allu'r ymgeisydd i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw yn unol â gofynion y cytundeb drafft (yn Atodiad 2); a
- Personél Allweddol:
  - Manylion y personél allweddol a fydd yn ymgymryd â chynhyrchu'r deunydd a'u profiad perthnasol;
  - Manylion yr aelod(au) o'r personél allweddol sydd yn rhugl yn yr iaith Gymraeg (boed yn gyflogedig ai peidio); ac
  - Arbenigedd addysg y personél allweddol (boed yn gyflogedig ai peidio).

### 3.2 Ffi

Dylai'r gwasanaethau gael eu darparu am ffi sefydlog, i gynnwys unrhyw gostau gosod, rheoli cyfrif, gweinyddu, staffio, cyfarfodydd a'r holl gostau a'r treuliau eraill sy'n codi o ddarparu'r gwasanaeth. Rhaid cyfleu'r ffi sefydlog hon mewn punnoedd sterling neu ei throsi i bunnoedd sterling, heb gynnwys TAW, ac mae'n rhaid iddi fod yn sefydlog trwy gydol y cytundeb.

Dylai Ymgeiswyr nodi'r ffi sy'n daladwy am y gwasanaethau a'r rhestr daliadau awgrymedig mewn ffordd eglur.

Dylai Ymgeiswyr ddarparu manylion am y ffi sefydlog a gynigir gennych, wedi'i rhannu i ddangos y ffi ar wahân o ran elfennau canlynol y cytundeb:

- Costau datblygu; a
- Chostau cynnal a chadw.

## 4. EGLURO YMATEBION A CHYFWELIADAU

Gall S4C ofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth bellach a/neu egluro unrhyw faterion a gynhwysir yn eu hymatebion. Gall S4C ofyn i ymgeiswyr fynychu cyfweliadau yng Nghaerfyrddin/dros y ffôn i egluro manylion a nodir yn y ddogfen gais.

## 5. GWERTHUSO'R YMATEBION

Dewisir y cyflenwyr gorau ar sail y meini prawf isod. Er mwyn asesu pa ymateb sydd yn cynnig y gwerth gorau bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn mesur a sgorio pob ymateb i'r cais hwn a'r holl wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfweliad (os yn berthnasol) yn unol â'r meini prawf a'r pwysiadau canlynol:

| | **Meini Prawf** | **Gwybodaeth i'w ystyried** | **Pwysiadau** |
|---|---|---|---|
| (a) | Golygyddol: ansawdd ac uchelgais yr ap craidd a'r gêmau | A yw'r ap a'r gemau'n dangos uchelgais olygyddol a chreadigol sy'n addas ar gyfer yr oedran darged, yn hawdd i'r defnyddiwr ei ddefnyddio (*user-friendly*), ac yn gwneud defnydd priodol o frand Cyw? | 25% |
| (b) | Golygyddol: pwrpas addysgiadol yr ap | A oes gan y gemau ffocws addysgiadol sy'n addas i'r oedran darged? | 15% |
| (b) | Strwythur technegol: agwedd fodylol | A yw'r ap o faint priodol ac yn addas ar gyfer ychwanegu a thynnu gemau'n effeithiol? | 10% |
| (c) | Technegol: gallu i leoleiddio | A oes modd lleoleiddio'r ap i ieithoedd eraill yn effeithiol? | 5% |
| (ch) | Amserlen gyflеu | A yw'r ymgeisydd yn medru cyfleu holl agweddau'r ap (gan gynnwys pob gêm) erbyn y dyddiad cyfleu?<br>A yw'r ymgeisydd wedi darparu cynllun cyhoeddi addas? | 10% |
| (d) | Cynnal a chadw | A oes gan yr ymgeisydd y gallu i gynnal a chadw'r ap ar draws cyfnod o ddwy flynedd yn effeithiol? | 5% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (d) | Personél allweddol | A oes gan y personél allweddol brofiad perthnasol o gyfleu gwasanaethau tebyg?<br><br>Oes gan yr ymgeisydd arbenigedd ym maes addysg yr oedran darged? | 15% |
| (dd) | Personél allweddol | Oes gan yr ymgeisydd allu iaith Gymraeg digonol? Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau, erbyn dyddiad cychwyn y cytundeb, bod o leiaf un aelod o'r personél allweddol (boed yn gyflogedig neu anghyflogedig) yn rhugl yn yr iaith Gymraeg. | Pasio/Methu |
| (e) | Ffi | A yw'r ffi'n cynnig gwerth am arian? | 15% |

Ceidw S4C yr hawl i ddiarddel unrhyw ymateb ac/neu unrhyw Gwmni o'r broses gystadleuol hon ar unrhyw bryd os:

(a) nad yw ymateb yn cydymffurfio mewn unrhyw modd â gofynion y ddogfen hon;

(b) yw unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn anghyflawn, anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd neu sy'n peidio a bod yn gywir;

(c) eich bod wedi cydgynllwynio gydag unrhyw un mewn perthynas â neu yn gysylltiedig â'ch ymateb chi, neu ymateb person neu gwmni arall i'r ddogfen hon.

Bydd diarddeliad unrhyw ymateb neu gwmni yn cael ei wneud heb ragfarn i unrhyw hawliau neu gywiriadau S4C.

## 6. DYFARNU CYTUNDEB

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Nodiadau Cyfreithiol isod ac ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso ymatebion, bydd S4C yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i gytundeb gydag S4C ar ffurf y cytundeb drafft yn Atodiad 2. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw ymateb, neu hysbysiad bod ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

Trwy gyflwyno'ch ymateb, bernir eich bod wedi derbyn yr amodau a'r telerau sy'n ymddangos yn y cytundeb drafft.

Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi, unwaith y bydd manylion y cais llwyddiannus yn hysbys, er mwyn cydymffurfio ag amodau penodol y trefniant y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Os na fydd y cytundeb yn

cael ei gwblhau yn foddhaol ar ôl dyfarnu'r cais buddugol, mae S4C yn cadw'r hawl i ddyfarnu'r cytundeb i ymgeisydd arall neu i ail-dendro'r cytundeb.

**NODIADAU CYFREITHIOL**

## 1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon neu mewn unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a chi ynghylch y broses hon neu'r ymateb yn gyfystyr â chytundeb i ddarparu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gytundeb gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses hon ar unrhyw adeg, i beidio â dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r ddogfen hon a/neu i ofyn i chi egluro eich ymateb a/neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hynny.

## 2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid ichi ddarparu manylion os y rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'ch cais a staff S4C. Mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei bod yn neilltuo staff i'r broses hon nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw gais i ddarparu y nwyddau/gwasanaethau.

## 3 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn rhaid i'r Ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Hysbysiad Cydymffurfio S4C (h.y. yn nodi Safonau'r Gymraeg perthnasol)
- Gofynion Technegol S4C
- Deddfwriaeth gamblo sy'n berthnasol i gystadlaethau a gynhelir
- Polisi Amddiffyn Plant S4C
- Canllawiau Brand Cyw
- Ymrwymiad Amrywiaeth S4C

Dylai pob Tendrwr gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn y cais. Mae nifer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Gynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/ neu wefan Awdurdod S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/amdanom-ni/awdurdod/page/17274/polisau-cynlluniau-a-chanllawiau/

## 4 Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os byddwch o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylech nodi hynny yn benodol yn eich ymateb gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Fodd bynnag, rhaid ichi dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddi wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei disgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlennu.

## 5 Diogelu Data

Trwy gyflwyno ymateb, rydych yn cadarnhau eich bod wedi rhoi gwybod i bob unigolyn a nodir yn eich ymateb y byddwch yn rhannu eu data personol fel hyn. Rydych yn cydnabod y bydd S4C yn prosesu'r holl ddata personol a ddarperir fel rhan o'ch ymateb yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol (gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae Hysbysiad Preifatrwydd S4C ar gael yn www.s4c.cymru ac rydych yn cadarnhau trwy hyn y byddwch yn hysbysu pob unigolyn y mae eu data personol yn cael ei ddarparu i S4C am y paragraff 5 hwn. Bydd S4C yn prosesu unrhyw ddata personol a ddarperir yn eich ymateb ar y sail ei bod o fudd cyfreithlon i chi ac S4C i brosesu'r holl ddata personol a ddarperir fel rhan o'r ymateb at ddiben gwerthuso ymatebion a chysylltu ag Ymgeiswyr ynglŷn â'r broses hon.

## 6 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb, rydych yn cytuno i gadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i chi gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses hon. Rydych yn cytuno i beidio â defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb, ac i beidio â datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb i S4C yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu iddynt gan S4C.

Trwy gyflwyno ymateb i'r cais yma am bris rydych yn cytuno i sicrhau na fydd unrhyw aelod o'ch staff neu unrhyw berson sydd yn eich cynghori neu sydd yn rhan o'ch ymateb yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, safleoedd gwe rhwydweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y cais yma am bris neu unrhyw benderfyniad S4C ynglylch unrhyw elfen o'r broses gystadleuol yma heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i'r fath gyfathrebiad.

## 7 Hawlfraint

Mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint yn y ddogfen hon ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarperir gan S4C. Ni chaniateir i Ymgeiswyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi copïau o'r ddogfen hon neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion.

## 8 Costau

Mae pob ymgeisydd yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses gystadleuol hon. Ni fydd S4C o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

## 9 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y ddogfen hon ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

## 10 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i'r ddogfen hon, rydych yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad ydych wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw berson neu gwmni arall i wneud yr un peth; ac

3. nad ydych wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglŷn â swm neu fras brisoedd eich ymateb, heblaw lle'r oedd y fath drafod yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris arall ar gyfer paratoi'r ymateb i'r ddogfen hon.

## 11 Ymddygiad Amhriodol

Os ydych chi neu'r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses gystadleuol yma neu'r penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb i'r broses gystadleuol yma yn nisgresiwn llwyr S4C . Os ydych chi neu'r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw aelod o staff S4C yn gysylltiedig â'r broses gystadleuol yma neu ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn rhan o'r broses gystadleuol yma, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb yn nisgresiwn llwyr S4C.

## 12 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir y ddogfen hon gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac rydych yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb, i ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODIAD 1**

**Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)

**ATODIAD 2**

**Cytundeb Drafft**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)